## ATODLEN 6

Rheoliad 34(3)

## MATERION A RHWYMEDIGAETHAU MEWN CYTUNDEBAU LLEOLIAD MAETH

**1.** Datganiad gan yr awdurdod cyfrifol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r awdurdod yn barnu ei bod yn angenrheidiol i alluogi'r rhiant maeth i ofalu am y plentyn ac yn benodol, gwybodaeth am—

(a) trefniadau'r awdurdod ar gyfer y plentyn ac amcanion y lleoliad yng nghyd-destun ei gynllun i ofalu am y plentyn;

(b) hanes personol y plentyn, ei argyhoeddiad crefyddol a'i gefndir diwylliannol ac ieithyddol a'i darddiad hiliol;

(c) cyflwr iechyd y plentyn a'i anghenion iechyd sydd wedi'u nodi;

(ch) anghenion diogelwch y plentyn, gan gynnwys unrhyw angen am offer neu addasiad arbennig;

(d) anghenion addysgol y plentyn; ac

(dd) unrhyw anghenion sy'n deillio o unrhyw anabledd a all fod gan y plentyn.

**2.** Trefniadau'r awdurdod cyfrifol ar gyfer cymorth ariannol i'r plentyn yn ystod y lleoliad.

**3.** Y trefniadau ar gyfer cydsynio ag archwiliad meddygol neu ddeintyddol neu driniaeth i'r plentyn.

**4.** O dan ba amgylchiadau y mae'n angenrheidiol cael cymeradwyaeth yr awdurdod sy'n gyfrifol am y plentyn ymlaen llaw i gymryd rhan mewn tripiau ysgol, neu i aros dros nos i ffwrdd o gartref y rhieni maeth.

**5.** Y trefniadau ar gyfer ymweliadau â'r plentyn, mewn cysylltiad â goruchwylio'r lleoliad, gan y person sydd wedi'i awdurdodi gan neu ar ran yr awdurdod cyfrifol a mynychder ymweliadau ac adolygiadau o dan Reoliadau Adolygu Achosion Plant 1991(**1**).

**6.** Y trefniadau i'r plentyn gael cysylltiad â'i rieni ac unrhyw bersonau penodedig eraill, a manylion unrhyw orchymyn llys ynghylch cysylltiadau.

**7.** Bod y rhiant maeth yn cydymffurfio â thelerau'r cytundeb gofal maeth.

**8.** Cydweithrediad y rhiant maeth â'r awdurdod cyfrifol ynghylch unrhyw drefniadau y mae'n eu gwneud ar gyfer y plentyn.

(**1**) O.S. 1991 Rhif 895 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991 Rhif 2033, O.S. 1993 Rhif 3069, O.S. 1995 Rhif 2015, ac O.S. 1997 Rhif 649.